# Azacatidine ar gyfer trin lewcemia myeloid aciwt gyda mwy na 30% o chwythiadau mêr esgyrn

Gorffennaf 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Nid argymhellir Azacatidine (Vidaza) ar gyfer trin lewcemia myeloid aciwt gyda mwy na 30% o chwythiadau mêr esgyrn mewn pobl 65 oed neu'n hŷn na allant gael trawsblaniadau bôn-gelloedd.

**Beth mae hyn yn ei olygu i mi?**

Ni ddylid rhagnodi azacitidine ar y GIG fel arfer ar gyfer y cyflwr fel y disgrifir uchod. Dylai eich meddyg siarad â chi am yr opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael i chi.

Os ydych eisoes yn cymryd azacitidine ar gyfer y cyflwr fel y disgrifir uchod, dylech allu parhau i'w gymryd nes eich bod chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn rhoi'r gorau i'w gymryd.

**Y cyflwr a'r triniaethau**

Mae liwcemia yn fath o ganser sy'n effeithio ar gelloedd gwyn y gwaed.

Mewn pobl sydd â liwcemia myeloid aciwt, mae bôn-gelloedd y tu fewn i'r mêr esgyrn (defnydd sbyngaidd y tu fewn i'r esgyrn) yn creu gormod o gelloedd gwyn y gwaed nad ydynt wedi datblygu'n llawn ac nad ydynt yn gweithio'n iawn. Gelwir y rhain yn gelloedd chwyth, neu chwythiadau mêr esgyrn.

Gall gormod o gelloedd chwyth arwain at symptomau megis blinder, gwaedu anarferol a heintiau rheolaidd, sy'n gwaethygu wrth i fwy o gelloedd chwyth gael eu creu.

Mae triniaethau ar gyfer lewcemia myeloid aciwt yn cynnwys gwahanol fathau o gyffuriau a thrawsblaniadau celloedd.

Mae azacitidine yn fath o gyffur o'r enw cyfrwng hypomethylating, a all helpu i atal celloedd canser rhag tyfu.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 0000
- Bloodwise, 0207 504 2200
- Gofal Lewcemia, 08088 010 444
- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2105-8